Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

ar gyfer sefydliadau gwarchodol yng Nghymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Estyn

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar, ond yn cael ei ariannu gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Leol i Gymru.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros yr arolygiadau hyn?

Rydym yn cynnal arolygiadau er mwyn bodloni'r dyletswyddau cyfreithiol a neilltuwyd i'r Prif Arolygydd mewn Deddfau amrywiol. Dyma'r prif Ddeddfau:

- Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992;
- Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996;
- Deddf Addysg 1997;
- Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae ein gwaith arolygu hefyd yn ystyried deddfwriaeth sy'n rheoli Estyn a darparwyr addysgol eu hunain, gan gynnwys, er enghraifft, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin yn canolbwyntio ar:

- gyflawniadau dysgwyr;
- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir;
- effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth.

Roedd y fframwaith yn gymwys i ganolfannau sefydliadau gwarchodol ar bum cwestiwn allweddol sy'n berthnasol i'r darparwr yn gyffredinol, yn ogystal ag agweddau ar ei waith fel meysydd dysgu, pynciau, cyrsiau, rhaglenni a meysydd galwedigaethol.

Safonau

1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- eu llwyddiant wrth gyrraedd nodau dysgu cytûn;
- eu cynnydd wrth ddysgu; a
- datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn bodloni anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm neu'r cwrs; a
- thrylwyrder yr asesu a'r defnydd a wneir ohono wrth gynllunio a gwella dysgu.

3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- i ba raddau y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr; a'r
- graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.

4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd i ddysgwyr;
- ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol; ac
- ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Dylai arolygwyr arfarnu:

- pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfarwyddyd clir ac yn hyrwyddo safonau uchel;
- pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i wella trwy strategaethau gwella ansawdd a hunanasesu;
- digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac adeiladau; a
- pha mor effeithlon y caiff adnoddau eu rheoli i gyflawni gwerth am arian.

Bydd arolygwyr yn defnyddio graddau i grynhoi barnau arolygu a byddant yn defnyddio'r raddfa pum pwynt ganlynol:

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4: Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5: Llawer o ddiffygion pwysig

Beth yw egwyddorion arolygu?

Wrth weithredu'r fframwaith hwn, byddwn:

- yn sicrhau bod arolygiadau o ansawdd uchel a'u bod yn ymatebol i angen pob dysgwr;
- yn cynnwys darparwyr yn llawn yn y broses arolygu;
- yn cysylltu arolygu ag adroddiad hunanasesu'r darparwr;
- yn ymgorffori elfen o arfarnu cymheiriaid yn y broses arolygu;
- yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ofynion ar gyfer dogfennaeth a pharatoi;
- yn canolbwyntio arolygiadau ar feysydd blaenoriaeth polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, cyfle cyfartal a datblygiad cynaliadwy;
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb ar gyfer Cymraeg a Saesneg i'n holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog lle bynnag y maent yn briodol;
- yn adeiladol wrth nodi a chefnogi darparwyr gyda diffygion difrifol; ac
- yn defnyddio'r fframwaith yn deg ac yn gyson ar draws pob sector addysg a hyfforddiant.

Sut bydd arolygwyr yn ymddwyn?

Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda gonestrwydd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol;
- yn arfarnu gwaith y darparwr yn wrthrychol;
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd;
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored;
- yn gweithredu er lles dysgwyr; ac
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith.

Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?

Os oes gan unrhyw un bryderon neu os ydynt am gwyno am yr arolygiad, yna dylid tynnu sylw'r arolygydd cofnodol at hyn cyn gynted ag y bo modd. Mae'n bwysig codi unrhyw bryder cyn gynted ag y bo'n digwydd. Bydd yr arolygydd cofnodol fel arfer yn ceisio datrys unrhyw gŵynion tra bydd yr arolygiad yn cael ei gynnal. Os na fydd yr arolygydd cofnodol yn gallu datrys y gŵyn yn ôl boddhad y darparwr, yna dylai'r sefydliad ysgrifennu at y Rheolwr Adborth a Chwynion yn y cyfeiriad a geir ar y daflen hon. Bydd Estyn yn ymchwilio i'r holl gŵynion ac wrth wneud hynny, bydd yn copïo'r holl ohebiaeth sy'n dod i law mewn perthynas â'r gŵyn i'r rheiny sy'n gysylltiedig er mwyn cael eu hymateb.

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd CF24 5JW

Ffôn 029 2044 6446

ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk